**EITEM AR YR AGENDA: 12**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**17eg Rhagfyr 2012**

**DIWYGIO LLES**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am yr effaith bosibl y gallai Diwygio Lles ei chael ar Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## Y Cefndir

2 Yn 2009, cyhoeddwyd *Dynamic Benefits: towards welfare that works* gan y *Centre for Social Justice*, sef melin drafod annibynnol a sefydlwyd gan Iain Duncan Smith i ymchwilio i dlodi sydd wedi gwreiddio'n ddwfn ym Mhrydain, ac i hyrwyddo atebion i hynny. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnig ailwampio'r system fudd-daliadau'n llwyr. Roedd yn cynnig disodli'r system gymhleth bresennol o 51 o fudd-daliadau gwahanol a chredydau treth gydag un credyd bywyd (*universal life credit*) ac un credyd gwaith (*universal work credit*). Byddai costau'r system newydd yn cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan fwy o refeniw treth gan fwy o bobl mewn gwaith, ac yn y tymor hir, yn arbed arian trwy leihau costau eraill i gymdeithas.

## Gwybodaeth

3 Yn seiliedig ar yr athroniaeth hon, mae Llywodraeth y DU wedi dechrau rhoi newidiadau ar waith i'r system fudd-daliadau fesul camau. Cyfeirir at hyn yn aml fel Diwygio Lles. Bydd un o'r prif newidiadau, sydd i'w gyflwyno yn Ebrill 2013, yn arwain at gyfuno'r holl fudd-daliadau y mae rhywun yn eu derbyn ar ffurf un taliad misol, na fydd yn fwy na £500 yr wythnos i gyplau ac aelwydydd un rhiant, a £250 yr wythnos i aelwydydd un person.

4 Hefyd, bydd Budd-dal Tai yn troi'n Lwfans Tai Lleol, a chaiff ei seilio ar asesiad rhanbarthol o'r 30% isaf o daliadau rhent. O 2013 ymlaen, bydd cysylltiad rhwng hyn a'r mynegai prisiau defnyddwyr, yn hytrach na'r mynegai prisiau manwerthu, sy'n fwy. Oherwydd y bydd y taliadau'n cael eu cyfuno yn yr un credyd, ni chaiff ei dalu mwyach i'r landlord yn uniongyrchol. Mae hyn yn peri pryder ynglŷn ag ôl-ddyledion rhent.

5 Ychwanegir rhagor o bwysau ar y rhai sy'n derbyn Lwfans Tai Lleol, a hynny ar ffurf cosb am danfeddiannu, sy'n gymwys i denantiaid o oedran gweithio. Bydd hyn ar ffurf treth o hyd at 14 y cant o'u budd-dal tai os oes ganddynt ystafell sbâr.

6 Mae effaith cyfnod pontio'r newidiadau hyn yn peri pryder mawr i awdurdodau lleol, yr heddlu, iechyd a'r awdurdodau tân ac achub. Gallai'r newidiadau hyn arwain at gynnydd mewn digartrefedd ac aflonyddwch cymdeithasol wrth i bobl symud o gwmpas yn ceisio dod o hyd i lety, a ffurfio aelwydydd anghytgordiol lle mae mwy o bosibilrwydd o sefyllfaoedd problemus.

7 Mae'n bosibl mai un o'r canlyniadau fydd llai o refeniw'n cael ei greu gan Awdurdodau Tai a Landlordiaid Cymdeithasol, a gallai hyn arwain at ddirywiad yn ansawdd y llety sydd ar gael i denantiaid.

8 Mae cryn waith mewn partneriaeth yn parhau dan arweiniad awdurdodau lleol er mwyn lliniaru'r peryglon o ganlyniad i Ddiwygio Lles, ond dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol o'r cynnydd posibl ar y galw am y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

9 Byddai unrhyw ddirywiad yn y llety o ganlyniad i ôl-ddyledion rhent yn codi lefel y gwaith gorfodaeth sydd ei angen yn dilyn archwiliadau dan Orchymyn Diogelwch Tân 2005. Rhywbeth sy'n peri mwy o bryder yw'r effaith bosibl y gallai pwysau ariannol ychwanegol ei chael ar bobl fregus â'u bywydau'n anhrefnus. Gallai hyn arwain at gynnydd mewn tanau damweiniol mewn anheddau, a'r marwolaethau a'r anafiadau o ganlyniad i'r tanau hyn. Bydd yr Aelodau'n cofio bod llety rhent yn un o'r ffactorau risg sy'n cyfrannu at farwolaethau damweiniol mewn tanau, fel y nodwyd gan Adroddiad Tasglu'r Prif Swyddog Tân yn 2007.

**Argymhelliad**

10 Gofynnir i'r Aelodau barhau i gefnogi gwaith ataliol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, gan ei fod yn gweithio gyda phartneriaid eraill ym maes diogelwch cymunedol i liniaru'r risgiau a allai ddigwydd o ganlyniad i Ddiwygio Lles.